**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Elin Jones AC, Llywydd

**National Assembly for Wales**
Elin Jones AM, Presiding Officer

Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
1 Caspian Point
Ffordd Caspian
Bae Caerdydd
CF10 4DQ

30 Mehefin 2016

Annwyl Alun

**Bil Cymru – diwrnod cyntaf y cyfnod pwyllgor – gwelliannau arfaethedig**

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am y gwelliannau drafft i Fil Cymru a gyhoeddwyd gennyf heddiw, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r materion a godwyd gennyf yn fy llythyr dyddiedig 21 Mehefin, y bwriedir eu trafod ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod pwyllgor yr wythnos nesaf.

Yn dilyn y bleidlais i Adael yn Refferendwm yr UE yr wythnos diwethaf, mae'n hanfodol sicrhau bod gan Gymru fframwaith cyfansoddiadol cryf a bod hynt y Bil drwy'r Senedd yn parhau.  Fodd bynnag, rwy'n cydnabod y bydd yr amserlen ar gyfer craffu ar y Bil pwysig hwn yn cyfyngu ar allu'r Cynulliad Cenedlaethol a'i bwyllgorau i ymgysylltu â'r broses.

Fel yr wyf wedi'i nodi eisoes, rwy'n croesawu'r cynnydd a wnaed wrth wella'r Bil. Bwriad y gwelliannau a gyhoeddwyd gennyf yw sicrhau mwy o eglurder a mynd i'r afael â phwyntiau  pwysig o ran egwyddor lle y mae'n fwy priodol, yn fy marn i, i'r Cynulliad benderfynu ynghylch ei weithdrefnau ei hun ac, yn benodol, sicrhau nad yw'r trefniadau deddfwriaethol statudol o ran cydsyniad rhwng y Cynulliad a Senedd y DU yn gulach na chwmpas y confensiwn rhynglywodraethol sydd ar waith ar hyn o bryd.

Pe gallech gyflwyno'r gwelliannau hyn gerbron y Tŷ i'w trafod ar ran Llywodraeth y DU, byddai hynny'n gam i'w groesawu.  Byddaf yn dilyn y drafodaeth â chryn diddordeb beth bynnag. Rwy'n edrych ymlaen at gyfarfod â chi yn y dyfodol agos i drafod y materion hyn ac at barhau i weithio'n adeiladol gyda'n gilydd.  Rwy'n



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6232

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Private.Office@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6232

croesawu cydweithrediad parhaus ein swyddogion a'r wybodaeth ychwanegol a gafwyd drwy gynnal y trafodaethau hyn.

Er lles tryloywder, amgaeaf gopi o'r llythyr a anfonwyd gennyf at holl Aelodau Seneddol Cymru heddiw, ynghyd â manylion y gwelliannau hyn.  Anfonwyd copïau o'r llythyr hwn at Brif Weinidog Cymru; arweinwyr grwpiau pleidiau'r Cynulliad a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

Amg